John Davies, Tahiti, 1772–1855
Cenhadwr

Un o ffrwythau amlwg y Diwygiad Efengylaidd yng ngwledydd Prydain oedd yr ymwybyddiaeth newydd ymhlith yr Ymneilltuwyr o'r angen i gyhoeddi'r Efengyl i holl genhedloedd y byd. Wrth gwrs, bu rhesymau gwleidyddol yn eu llesteirio hyd ddiwedd y 18fed ganrif, ac o ganlyniad sefydlwyd mudiadau cenhadol gan yr enwadau i gyflawni'r gwaith. Sefydlwyd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr ym 1792 a Chymdeithas Genhadol Llundain ym 1795. Dros y blynyddoedd aeth cannoedd o wŷr a gwragedd i bedwar ban y byd i geisio gwireddu'r weledigaeth o 'fynd i'r holl fyd a phregethu'r Efengyl', ac yn eu plith John Davies.

Fe'i ganed ar 11 Gorffennaf 1772 ar fferm Pendugwm, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Trefaldwyn, yn fab i wehydd. Ymddengys iddo gael peth addysg yn ysgolion Madam Bevan, ac yn ddiweddarach fe gadwodd ysgol yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Yno ymaelododd â'r Methodistiaid a addolai mewn tŷ o'r enw Penllys.

Tua throad 1798 hwyliodd ef a'i wraig ar fwrdd y *Duff* – y llong gyntaf a brynodd Cymdeithas Genhadol Llundain, am £4,800 – ar ei hail daith genhadol i Tahiti ym Môr y De. Y mae ansicrwydd yn y ffynonellau ynghylch pa flwyddyn yn union yr hwyliodd John Davies. Awgrymir tair blwyddyn bosibl, sef 1798, 1800 a 1801. Yn ogystal â hyn, dywed un awdur mai ar long y *Royal Admiral* yr hwyliodd John Davies gyda deuddeg o genhadon eraill. Ond mae un peth sicr, sef mai ef oedd y Cymro cyntaf i fynd yn genhadwr o dan faner Cymdeithas Genhadol Llundain. Mae'n debyg bod Thomas Charles o'r Bala yn rhannol gyfrifol bod John Davies wedi mynd i Tahiti, oherwydd pan ddychwelodd y *Duff* o'i thaith genhadol gyntaf cafodd sgwrs hir â'r capten. Dywedodd hwnnw wrtho fod angen mawr am athrawon yn Tahiti ac fe awgrymodd Thomas Charles enw John Davies.

Yn fuan wedi iddynt gyrraedd yno bu farw ei briod, ond er y torcalon, ymroes yn egnïol i'r gwaith. Dros y blynyddoedd

ysgrifennodd John Davies yn gyson o Tahiti at John, brawd Ann Griffiths, yr emynyddes, ac y mae llu o'r llythyrau a anfonodd at y Parch. John Hughes, Pontrobert, ar gael. Cyfieithodd y rhan helaethaf o'r Testament Newydd a'r Salmau i'r iaith frodorol gan roi'r iaith honno ar glawr am y tro cyntaf, ac er mwyn gwneud hyn bu rhaid iddo lunio gwyddor a gramadeg. Aeth ati hefyd i gyhoeddi geiriadur, cyfieithiad o *Taith y Pererin*, John Bunyan, a chatecism Brown a Westminster.

Gwaith caled oedd ymsefydlu ar yr ynys gan fod y brodorion nid yn unig yn wrthwynebus, fel y gellid disgwyl, ond hefyd yn brwydro â'i gilydd byth a beunydd. Ym 1808 bu rhaid i'r cenhadon ffoi o'r ynys oherwydd ymosodiadau gan y brodorion, gan geisio lloches ym Mhorth Jackson, Awstralia. Wedi peth amser dychwelasant i Dahiti a daeth llwyddiant i'r gwaith o 1814 ymlaen. Llafuriodd John Davies yng ngwaith yr Arglwydd yn ddi-dor am 54 o flynyddoedd, ac yn ystod deng mlynedd olaf ei oes fe aeth yn ddall. Bu farw 19 Awst 1855.